THE ENGLISH VERSION IS BELOW THE WELSH VERSION

Mehefin 19, 2020.

Annwyl Riant/Gofalwr,

Gwybodaeth am ofal plant

Mae paratoadau ar y gweill i ail-agor ein hysgolion o Fehefin 29ain, i blant i '**Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi'** cyn gwyliau'r haf a mis Medi.

Bydd ein canolfannau gofal plant presennol yn parhau i fod ar agor i blant gweithwyr allweddol, yn ogystal â phlant sy'n agored i niwed tan **ddydd Gwener, 26 Mehefin**. **Fodd bynnag, bydd y canolfannau yn cau am 3.30 y prynhawn ar y diwrnod hwn fel y gellir glanhau'r ysgolion yn barod i'w hail-agor ar y dydd Llun.**

O Fehefin 29ain, bydd gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol yn cael ei ddarparu gan ysgolion unigol (Mae hyn yn berthnasol i ddisgyblion blwyddyn 7 yn unig mewn ysgolion uwchradd). Os yw eich plentyn yn mynychu'r ddarpariaeth gofal plant, bydd yn ymuno â'i gyfoedion am y sesiynau perthnasol fel eu bod yn ailgydio, dal i fyny a pharatoi gyda'i gilydd.

Bydd gan yr ysgolion nifer cyfyngedig o leoedd ar gyfer gofal plant a'r sesiynau 'ailgydio' oherwydd gofynion ymbellhau cymdeithasol. Mae'r galw am leoedd yn debygol o fod yn uchel iawn, a bydd angen i rai ysgolion gapio lleoedd gofal plant a byddant yn gweithredu proses flaenoriaethu lem er mwyn dyfarnu lleoedd. Bydd y penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol gan bob ysgol, a fydd yn hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus am eu lle.

Rydym yn annog rhieni i ystyried yn ofalus iawn a yw'n gwbl hanfodol eich bod yn cael gofal o'ch ysgol. Er enghraifft, a yw eich gwaith yn allweddol i ymateb Covid-19 ac a yw'r ddau riant yn gweithio i ffwrdd o'r cartref fel nad oes neb ar gael i ofalu am eich plentyn?

Yn anffodus, nid oes sicrwydd y byddwch yn derbyn gofal plant. Mae'n ddrwg gennym os nad ydych yn cael lle, ond rhowch gynnig arall arni'r wythnos ganlynol; mae eich ysgol yn ymdrechu'n galed i ddiwallu anghenion a disgwyliadau ei holl ddysgwyr a'i theuluoedd.

Mae'r blaenoriaethu fel a ganlyn:

Blaenoriaeth 1	Plant bregus.
Blaenoriaeth 2	Defnyddwyr presennol neu geisiadau newydd wrth: a. *Iechyd a gwasanaethau 'golau glas' eraill* b. *Staff ysgol a gofal plant* c. *Staff Cyngor Sir Caerfyrddin*
Blaenoriaeth 3	Defnyddwyr cyfredol- pob categori cymwys arall
Blaenoriaeth 4	Ceisiadau newydd

Bydd eich ysgol yn rhoi gwybod i chi am yr oriau y maent yn gallu eu darparu ar gyfer gofal plant. Mae'n bosibl y bydd darpariaeth cyn ac ar ôl oriau ysgol arferol yn dibynnu ar yr amgylchiadau yn eich ysgol.

Bydd angen i chi wneud cais ar-lein o hyd bob wythnos gan ddefnyddio'r eform drwy'r ddolen isod. Bydd y ffurflen yn agor am 5pm ar ddydd Gwener ac yn cau ar ddydd Mercher am 5pm.

BWCIO LLE MEWN YSGOL AR GYFER GOFAL

Rydym hefyd yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch a oes angen darparu gofal plant i weithwyr allweddol yn ystod gwyliau'r haf. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am hyn cyn gynted ag y cawn y wybodaeth ddiweddaraf.

Yn ddiffuant,

Gareth Morgans

Am ragor o wybodaeth ac arweiniad ar ail-agor ysgolion ewch i–
www.sirgar.llyw.cymru/addysg

June 19th, 2020.
Dear Parent/Carer,

Information regarding childcare

Preparations are underway to re-open our schools from, June 29th for children to '**Check in, Catch up and Prepare'** before the summer holidays and September.

Our current childcare hubs will remain open for the children of key workers, as well as vulnerable children until **Friday, June 26**. **However, the hubs will be** closing at 3.30pm **on this day so that the schools can be cleaned ready for re-opening on the Monday.**

From June 29, childcare for key workers will be provided by individual schools (this applies to Year 7 pupils only in secondary schools). If your child accesses the childcare provision, they will join their peers in class in the relevant sessions so that they catch up, prepare and learn together.

The schools will have a limited number of places for childcare and for the 'check in' sessions due to social distancing requirements. The demand for places is likely to be very high, and some schools will need to cap childcare places and will be implementing a strict prioritisation process in order to award places. The decisions will be made locally by each school, who will inform successful applicants of their place.

We are urging parents to please consider very carefully whether it is absolutely essential that you have childcare from your school. For example, is your work critical to the Covid-19 response and do both parents work away from the home so there is no-one available to look after your child?

Unfortunately, there is no guarantee that you will receive childcare. We are sorry if you do not receive a place, but please try again the following week; your school is trying hard to meet the needs and expectations of all its learners and families.

The prioritisation is as follows:

Priority 1	Vulnerable children.
Priority 2	Current users or new applications from:

	a. *Health and other 'blue light' services* b. *School and childcare staff* c. *Carmarthenshire County Council staff*
Priority 3	Current users – all other eligible categories
Priority 4	New applications.

Your school will inform you of the hours that they are able to provide childcare. There may or may not be provision before and after normal school hours depending on the circumstances in your school.

You will still need to apply online each week using the eform through the link below. The form will open at 5pm on a Friday and close on a Wednesday at 5pm.

BOOK A CARE PLACE IN A SCHOOL

We are also waiting for confirmation from Welsh Government on whether childcare needs to be provided for key workers during the summer holidays. We will publish further information on this as soon as we have an update.

Yours sincerely,

Gareth Morgans

For further information and updates on the re-opening of our schools please visit carmarthenshire.gov.wales/education